**Atodiad 6: Dadansoddiad o’r cyfrifiad ysgolion - data demograffig**

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD/*PLASC*) yn arolwg a gynhelir bob blwyddyn, fel rheol ym mis Ionawr, lle mae ysgolion yn casglu gwybodaeth am eu disgyblion a gaiff ei gasglu ynghyd wedyn gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Gellir defnyddio'r data hwn er mwyn helpu i nodi anghenion a heriau penodol sy'n wynebu ysgolion unigol, a'r rhagolygon ehangach ledled Caerdydd.

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu paramedrau demograffig a gipiwyd o’r CYBLD sy'n helpu i lywio a darparu cyd-destun ar gyfer cynigion ysgolion.

Cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim

Mae tabl 1 isod yn crynhoi canran y disgyblion, o’r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 yn gynwysedig, sy’n derbyn prydau ysgol am ddim ym mhob ysgol. Cofnodir hyn o fewn CYBLD fel cymhwysedd prydau ysgol am ddim (cPYADd/*eFSM*).

**Tabl 1: Data demograffig - Disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**
Ffynhonnell: CYBLD 2022

| Ysgol | Cymhwysedd PYADd (disgyblion fel %) |
|---|---|
| | |
| Ysgol Gynradd Albany | 36.0% |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 37.8% |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 29.5% |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 42.8% |
| Ysgol Mynydd Bychan | 5.4% |
| | |
| Allensbank a Gladstone wedi’u cyfuno | 33.9% |

**Ethnigrwydd**

Mae Tabl 2 isod yn crynhoi’r data ethnigrwydd a gipiwyd o fewn y CYBLD. Mae’r data yma yn amrywio rhwng ysgolion ac wedi ei grynhoi i Gwyn Prydeinig a ddim yn Wyn Prydeinig, a nifer yr ethnigrwyddaethau, i'w cynrychioli'n gliriach.

**Tabl 2: Data demograffig - Ethnigrwydd disgyblion ysgol Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6**
Ffynhonnell: CYBLD 2022

| Ysgol | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Gwyn Prydeinig | Ddim yn Wyn Prydeinig | Nifer y cefndiroedd ethnig |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albany | 378 | 17.2% | 82.8% | 53 |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 193 | 21.2% | 78.8% | 45 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 173 | 20.8% | 79.2% | 37 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng | 138 | 18.8% | 81.2% | 28 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nghymru y Santes Monica | | | | |
| Ysgol Mynydd Bychan | 203 | 91.1% | 8.9% | 11 |

**Iaith y cartref**

Mae Tabl 3 isod yn manylu ar boblogaethau demograffig ysgolion o ran yr iaith a siaredir gartref, a chymhwysedd y disgyblion mewn Saesneg llafar lle ystyrir Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY/*EAL*). Mae'r canrannau'n cael eu meintioli o ran disgyblion sy'n cael eu categoreiddio fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol (newydd i'r Saesneg i ddatblygu cymhwysedd, categorïau A i C), tra bod gweddill y plant sydd yng nghategorïau D ac E yn cael eu categoreiddio fel 'cymwys' a 'rhugl' yn y drefn honno.

**Tabl 3: Data demograffig - Iaith gartref disgyblion ysgol o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6**
Ffynhonnell: CYBLD 2022

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr | Iaith gartref Gymraeg neu Saesneg | Iaith gartref heb ei chofnodi | Nid Cymraeg na Saesneg yw'r iaith gartref | Niferoedd yr ieithoedd Gartref | Saesneg fel Iaith Ychwanegol: A – C ('Newydd i'r Saesneg' i 'datblygu cymhwysedd') |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albany | 378 | 161 | 11 | 206 | 37 | 111 (29%) |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 193 | 78 | 10 | 105 | 31 | 97 (50%) |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 173 | 66 | 3 | 104 | 31 | 82 (47%) |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 138 | 42 | 0 | 95 | 33 | 90 (65%) |
| Ysgol Mynydd Bychan | 203 | 201 | 0 | 2 | 3 | 0 (0%) |

**Symudedd disgyblion**

Mae tabl 4 isod yn rhoi syniad o drosiant disgyblion yn yr ysgolion, o ran canran y disgyblion mewn carfan sy'n wahanol i'r flwyddyn flaenorol o'i gymharu â dyddiad y PLASC a gyda chyfartaledd dros gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn rhoi mesur o 'symudedd' y boblogaeth yn yr ysgol.  Mae gan ysgolion sydd â chanran uwch boblogaeth o ddisgyblion mwy symudol h.y. canran uwch o blant yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r ysgol.

| **Tabl 4: Data demograffig - Symudedd disgyblion ysgol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6**<br>Ffynhonnell: CYBLD 2020 / 2021 / 2022 | |
|---|---|
| Ysgol | Disgyblion ddim yn symud i'r grŵp blwyddyn nesaf yn yr ysgol (cyfartaledd 3 blynedd) |
| Ysgol Gynradd Albany | 14.5% |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 15.2% |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 21.9% |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 21.1% |
| Ysgol Mynydd Bychan | 1.3% |